GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGU FFINIAU CYMUNEDAU) (BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI) 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 [1] y mae ei bwerau bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru[2]:

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 1 Hydref 2007.

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

3. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Diben yr adolygiad yw ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion ai peidio mewn perthynas â'r ardaloedd a adolygir fel y'u hawdurdodir gan adran 54 a pha gynigion, os o gwbl, i'w gwneud, a rhaid i'r Comisiwn, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, lunio'r cyfryw gynigion yn unol â hynny.

Y Dr Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 17/9/2007

---

(1) 1972 p.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

(2) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd swyddogaethau'r Cynulliad eu trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. (2006 p.38).